Y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol: adroddiad ymchwil

Maes Gwaith 10: Y Cyfuniad Dysgu Proffesiynol



Yr Athro Ken Jones
Karen Evans
Michelle Roles

Model Dysgu Proffesiynol Newydd Llywodraeth Cymru

Maes Gwaith 10: Y Cyfuniad Dysgu Proffesiynol

1. Cyflwyniad a chyd-destun

Mae Cenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru (2017a) yn amlinellu pedwar amcan eglur a fydd yn galluogi ysgolion i ddod yn “sefydliadau dysgu bywiog, cynhwysol, agored, cysylltiedig, creadigol sydd wedi’u lleoli yn y gymuned ac sy’n weithredol mewn rhwydweithiau ehangach” (tud.11). Y cyntaf o’r amcanion hyn yw datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel, ac mae darparu model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol newydd, a luniwyd ar y cyd gyda gweithwyr addysg proffesiynol a llunwyr polisi, yn allweddol i hyn.

Yn rhan o’r broses llunio ar y cyd, mae 11 prosiect ymchwil ar raddfa fach wedi cael eu comisiynu sy’n canolbwyntio ar y model dysgu proffesiynol a’r elfennau sy’n rhan ohono. Mae’r papur hwn yn un o’r rhain ac mae’n defnyddio adolygiad o lenyddiaeth a chyfweliadau â phobl allweddol i fynd i’r afael â’r ffyrdd y gallai’r ***‘Cyfuniad Dysgu Proffesiynol’*** alluogi’r model newydd i gael ei weithredu’n effeithiol. Mae hefyd yn ystyried pa amodau proffesiynol y bydd angen iddynt fod ar waith er mwyn i ymagwedd gyfunol at y model dysgu proffesiynol cenedlaethol weithredu’n effeithiol yn ymarferol.

Mae’r defnydd o derminoleg yn yr agenda weddnewidiol hon yn bwysig. Mae’r pwyslais ar *ddysgu* proffesiynol yn cael ei wahaniaethu’n gywir o *ddatblygiad* proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Mae Jones (2015) yn amlinellu’r diffiniadau o’r ddau sy’n dod i’r amlwg: "It is because professional situations are not static that we can't rely on 'professional development' alone. ... 'Training' is not sufficient; adaptability is essential; lateral and divergent thinking are central; criticality rather than compliance is needed....”

Mae’n ychwanegu: "'Professional learning' involves active learning; it is a continuing process; it focuses on enquiry, analysis, reflection, evaluation, further action; .... in its best forms it is collaborative; and it enables an approach which is not confined to a linear interpretation of future events and ways of working.” (Jones 2015.) At ddibenion y papur hwn, rydym yn diweddaru’r term DPP ac yn ystyried bod Dysgu a Datblygiad Proffesiynol (DDP) yn cynnwys y ddwy ymagwedd. Felly, dylid ystyried pwyslais y papur hwn fel ymagwedd gyfunol tuag at ddysgu a datblygiad proffesiynol.

Yr hyn sy’n amlwg yw bod y pwyslais ar ddysgu proffesiynol yn cyfateb yn gynyddol i ddysgu myfyrwyr a bod y damcaniaethau sy’n llywio ymarfer yn y ddau yn debyg (Philpott, 2014). Fodd bynnag, mae prosesau dysgu’n gymhleth ac yn gysylltiedig â chyd-destun. Mae dysgwyr proffesiynol yn wahanol i’w gilydd, maen nhw’n gweithio mewn gwahanol amgylcheddau ysgol ac ystafell ddosbarth ac mae ganddynt wahanol gyfrifoldebau a dyheadau gyrfaol, felly mae’n rhaid i’r prosesau cymorth dysgu fod yn hyblyg ac yn briodol i’r cyd-destun. Derbynnir bellach bod y model ’hyfforddi’ (Kennedy, 2005), sy’n dibynnu ar drosglwyddo gwybodaeth neu ddatblygu sgiliau penodol, yn briodol mewn amgylchiadau penodol yn unig (er enghraifft, pan fydd angen ymagweddau llinol tuag at ddatblygiad proffesiynol). Felly, mae’n rhaid i’r

math o gymorth dysgu proffesiynol a gynigir ymwneud ag amgylchiadau penodol, fel anghenion canfyddedig yr unigolyn, a allai fod i ddatblygu ymagweddau addysgol neu sgiliau arwain (Crompton et al, 2016; Fluckiger et al, 2014); dibenion y gweithgarwch dysgu neu'r rhaglen ddysgu; cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol neu sefydliadol; neu'r canlyniadau a fwriedir (os yw hynny'n briodol) ar gyfer y myfyrwyr a'r gweithwyr proffesiynol dan sylw (Guskey, 2000; King, 2014). Mae'n amlwg y byddai ymagwedd unigol at DDP yn annigonol ac yn aneffeithiol. Lle y ceir gwahanol ymagweddau, dylai'r rhain fod yn gydlynol ac, felly, yn 'gyfunol'.

Mae amrywiadau annerbyniol wedi bod o ran darpariaeth a chyfleoedd dysgu yn y system addysg yng Nghymru (OECD, 2014) ac mae hyn yn cyfrannu at brofiadau anghyfartal i fyfyrwyr a gwahaniaethau mewn ansawdd addysgu. Rhan o genhadaeth Cymru yw datblygu model dysgu proffesiynol *cenedlaethol* i wrthweithio hyn, a bydd gwaith Consortia Rhanbarthol wrth arwain a chefnogi dysgu proffesiynol yn ganolog i'w lwyddiant. Gellid dadlau bod ffactorau daearyddol, ieithyddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru yn cyflwyno heriau i ddysgu proffesiynol, felly bydd darparu gwahanol fathau o *gymorth* dysgu proffesiynol, ar ffurf 'dysgu cyfunol' neu 'gyfuniad dysgu' a gynigir ar lefel ranbarthol (haen ganol) a sefydliadol, yn hollbwysig.

2. Ymagweddau at Ddysgu Proffesiynol

Mae'r sylfaen ymchwil ryngwladol ar gyfer amlygu DDP effeithiol i athrawon yn cynyddu ac yn dangos cysondeb. Mae sawl nodwedd allweddol wedi cael eu hamlygu ar gyfer dysgu proffesiynol o ansawdd uchel; efallai'r mwyaf arwyddocaol yw symudiad oddi wrth rywbeth sy'n cael ei ddarparu i weithwyr proffesiynol gan 'arbenigwyr' i sefyllfa lle mae gweithwyr proffesiynol yn cyfranogi ar y cyd ac yn weithredol at eu twf a'u dysgu proffesiynol eu hunain (Desimone, 2009; Cordingley et al, 2005).

Yn ogystal, mae'r ffocws ar ddysgu proffesiynol wedi pwysleisio'r cysylltiad rhwng dysgu unigol a blaenoriaethau sefydliadau a systemau, yn enwedig o ran bod o fudd i ddysgu disgyblion trwy effeithiolrwydd systemau (Opfer a Pedder, 2011; Pedder ac Opfer, 2011; Hattie, 2003). Mae Labone a Long (2016) yn amlygu nodweddion allweddol dysgu proffesiynol: lluniadaeth, cynaliadwyedd dros gyfnod hirdymor, cysylltiadau â nodau sefydliadau a systemau (yn enwedig nodau myfyrwyr) a chydweithredu. Mae Margolis (2017) yn hyrwyddo pwysigrwydd llais y myfyriwr wrth lywio blaenoriaethau dysgu a phwysleisiodd Whitehouse (2011) bwysigrwydd dysgu sy'n canolbwyntio ar yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys gwerth arbenigedd allanol.

Mae gwaith Darling-Hammond et al yn Unol Daleithiau America (2017) yn cyd-fynd â chanfyddiadau o Awstralia, Seland Newydd a'r Deyrnas Unedig trwy restru nodweddion allweddol dysgu proffesiynol effeithiol, sydd oll yn gofyn am wahanol fathau o ymagweddau a chymorth. Maen nhw'n cynnwys:

- cyfleoedd ar gyfer dysgu gweithredol;
- diwylliant colegol neu gydweithrediadol;
- gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth sy'n rhan annatod o fywyd beunyddiol addysgu, gyda phwyslais ar waith myfyrwyr a chanlyniadau myfyrwyr;

- cydlyniad â gweithgareddau dysgu proffesiynol eraill; a,
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar ymarfer proffesiynol.

Mae Timperley (2007) a Timperley et al (2011) yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o nodweddion dysgu proffesiynol, ac mae'r ddwy astudiaeth yn pwysleisio'r heriau sy'n gysylltiedig â 'chadw popeth i fynd' fel bod y prosesau dysgu'n gynaliadwy, ac nid yn fyrhoedlog neu'n 'ateb cyflym'. Yn eu hadolygiad rhyngwladol o ddatblygiad proffesiynol effeithiol, mae Cordingley et al (2015) yn dod i'r casgliad canlynol: "carefully designed/aligned teacher CPDL with a strong focus on pupil outcomes has a significant impact on student achievement" (tud. 4). Maen nhw'n mynd ymlaen i fanylu ar nodweddion "dyluniad gofalus" ac mae gan eu canfyddiadau oblygiadau allweddol i bolisi ac ymarfer. Mae James a McCormick (2009) yn amlygu pa mor bwysig ydyw i arweinwyr ysgol greu "the space and climate for school staff to reflect on and share aspects of their practice. This includes encouraging and stimulating dialogue and risk taking. In this way innovations can be tested, embedded and sustained…. Without it, they remain *surface changes* that decay and disappear when the next initiative comes along" (tud. 982, ein llythrennau italig ni).

Mae'n amlwg, felly, os yw'r model dysgu proffesiynol newydd am ddylanwadu ar ymarfer, rhaid i'r mathau o ddysgu y mae gweithwyr proffesiynol yn ymwneud â nhw fod yn amrywiol ac wedi'u hymsefydlu, yn hytrach nag yn unigol, wedi dyddio neu'n drosglwyddol. Yn fyr, dylent fod yn gyfunol.

3. Y Cyfuniad Dysgu Proffesiynol

Er bod gennym ddarlun sy'n dod i'r amlwg o DDP effeithiol, mae arnom angen diffiniad o ddysgu cyfunol hefyd, ond fel y dywed Oliver a Trigwell (2005): "The term 'blended learning' is ill-defined and inconsistently used. Whilst its popularity is increasing, its clarity is not" (tud. 24). Yn wir, mae ein hadolygiad o lenyddiaeth wedi dangos bod 'dysgu cyfunol' yn derm y dadleuir yn ei gylch, gyda sawl gwahanol ystyr.

Mae'r term wedi cael ei ddefnyddio ers tro ym maes addysg uwch, lle mae dysgu oedolion annibynnol yn cael ei gyfoethogi gan dechnoleg ar-lein. Diffiniad yr Academi Addysg Uwch, yn syml, yw "Blended approaches use multiple methods to deliver learning, combining face-to-face interactions with online activities" (HEA, dim dyddiad). Awgrymodd Oliver a Trigwell yn 2005 fod y term 'cyfunol' yn ddiangen oherwydd bod cymysgedd addysgol yn arferol bellach, yn ymarferol.

Y tu hwnt i derminoleg, mae Auriccio (a ddyfynnwyd yn Millar, 2015) yn dweud, 'blended learning as traditionally conceived (ie the combination of face-to-face and online learning..) is destined to become a relic of the past' (tud. 28). Mae'n awgrymu y bydd 'Increased digitalisation,' yn galluogi 'omni-learning', 'where online and offline are indistinguishable'. (tud. 29). Mae Crompton et al (2016) yn defnyddio'r ymadrodd 'mLearning' i gyfleu dysgu trwy dechnolegau symudol. Ystyriwn yn ddiweddarach y ffyrdd y mae dysgu cyfunol trwy ddefnyddio technoleg yn gallu gwella dysgu proffesiynol yn gyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru (2017b) yn adnabod 'profiadau dysgu cyfunol' yng nghyd-destun dysgu myfyrwyr fel "Repertoire o dechnegau addysgu" lle mae "profiad o amgylcheddau amrywiol a phriodol [yn cael ei ddefnyddio]" sleid 31. Yn ystod cam sefydlu addysgu, byddent yn disgwyl i "ardaloedd dysgu fel y gweithdy, yr awyr agored, labordy, stiwdio, campfa, llyfrgell, theatr a'r ystafell ddosbarth [fod] yn lleoliadau integredig ar gyfer dysgu sy'n dangos disgyblaeth a strwythur pwnc sy'n addas i brofiad" (sleid 31).

Diffiniodd Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth Cymru (Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol), sy'n gyfrifol am sefydlu'r model dysgu proffesiynol newydd, y syniad o gyfuniad dysgu fel a ganlyn:

> "… y dysgu cyfunol neu'r cyfuniad yw sicrhau bod yr holl gyfleoedd dysgu'n cael yr effaith fwyaf trwy gynyddu mynediad atynt i'r eithaf, trwy gynyddu sefydlogrwydd yr adnodd sy'n eu hategu i'r eithaf a thrwy sicrhau'r ansawdd uchaf posibl i'r graddau mwyaf posibl, …" (nodiadau cyfweliad, mis Awst 2018).

Mae'r term 'cyfuniad dysgu proffesiynol' yn ddefnyddiol ac yn llai cyfyngol. Nid yw'n ein clymu wrth y diffiniad dwyochrog o ryngweithiadau wyneb yn wyneb traddodiadol rhwng yr athro a'r sawl sy'n cael ei addysgu wedi'u cyfuno â chymorth dysgu ar-lein. Yn lle hynny, mae'n cynnig cyfle i edrych yn ehangach ar y ffordd orau o gyflawni ymgysylltiad â dysgu proffesiynol. Mae darpariaeth ar-lein yn un maes; mae eraill yn cynnwys myfyrio a holi unigol; ymgysylltu â rhwydweithiau dysgu proffesiynol; arsylwi addysgu a dysgu mewn ystafelloedd dosbarth a sefydliadau eraill a chyda gwahanol grwpiau oedran; mynediad at lais y myfyriwr; mentora a hyfforddi; a thrwy symudedd proffesiynol sy'n gysylltiedig ag ymweliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Bydd athrawon ledled Cymru eisoes wedi ymwneud â nifer o'r dulliau darparu hyn. Roedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau dysgu proffesiynol / DPP mor bell yn ôl â 2002 (Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, 2002, tud. 24) ac mae'n ddefnyddiol ystyried y rhain yn elfennau posibl o gymysgedd o brofiadau dysgu proffesiynol, sydd weithiau wedi'u cyfuno fel cawl llyfn, ac weithiau'n cyd-fynd â'i gilydd fel cynhwysion mewn cawl traddodiadol Cymreig.

4. Methodoleg

Defnyddiwyd nifer o ddulliau i gasglu data ar gyfer y papur hwn:

- adolygiad o lenyddiaeth academaidd a phroffesiynol yn ymwneud â dysgu a datblygiad proffesiynol yn gyffredinol a dysgu cyfunol yn benodol;
- adolygiad o ddatganiadau polisi diweddar Llywodraeth Cymru a dogfennau eraill cysylltiedig sy'n berthnasol i'r ffordd y mae cyfuniad dysgu proffesiynol yn cael ei ddiffinio ac yn debygol o gael ei wireddu;
- wrth ymateb i'r briff gan Lywodraeth Cymru, cynhwyswyd astudiaethau achos o gyrff proffesiynol, a diwydiant. Cafwyd enghreifftiau o brosiect ymchwil mewnol a gynhaliwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn 2017 (heb ei gyhoeddi), neu fe'u hamlygwyd trwy'r adolygiad o lenyddiaeth. Dewiswyd yr astudiaethau achos yn yr atodiad oherwydd eu bod yn dangos cynlluniau DPP sy'n cynnwys elfen gyfunol naill ai yn y ddarpariaeth neu'r gofynion cofnodi;

- cyfweliadau (un wyneb yn wyneb, y llall ar-lein) â dau unigolyn allweddol yn system Cymru sy'n arwain wrth ddarparu'r model dysgu proffesiynol newydd ac wrth ddarparu cymorth dysgu ar-lein i weithwyr proffesiynol.

Defnyddiwyd ffynonellau rhyngwladol ac nid oedd y llenyddiaeth y chwiliwyd amdani wedi'i chyfyngu i enghreifftiau o fyd addysg. Darperir enghreifftiau byr o ffynonellau nad ydynt yn ymwneud ag addysg fel atodiadau i'r adroddiad hwn.

Wrth chwilio'r llenyddiaeth, ceisiwyd ateb y cwestiynau canlynol:

- Beth yw ystyr y termau 'dysgu cyfunol' neu 'gyfuniad dysgu'?
- Sut beth yw cyfuniad dysgu proffesiynol?
- Sut gall cyfuniad dysgu proffesiynol gael y dylanwad mwyaf ar ymarfer a bod yn fwyaf buddiol i unigolion o ran ymgysylltiad ar hyd gyrfa?
- Pa gymorth y mae ei angen gan arweinwyr sefydliadau a systemau cenedlaethol i sicrhau cyfuniad dysgu proffesiynol cynaliadwy?
- Pa enghreifftiau o ddysgu cyfunol effeithiol sy'n bodoli y tu allan i fyd addysg?
- Pa rwystrau sy'n bodoli rhag darparu cyfleoedd dysgu cyfunol cynaliadwy i weithwyr proffesiynol ym myd addysg?

Cynhaliwyd cyfweliad â Dr Kevin Palmer [Dirprwy Gyfarwyddwr – Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol]. Canolbwyntiodd y cyfweliad ar y sail resymegol dros ddefnyddio'r term 'cyfuniad dysgu' a'r rhesymeg wrth wraidd Model Dysgu Proffesiynol newydd Llywodraeth Cymru. Recordiwyd y cyfweliad a darparwyd trawsgrifiad i'r holl bartïon i sicrhau cywirdeb. Mae sylwadau a wnaed yn y cyfweliad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn gyda chaniatâd.

Cynhaliwyd cyfweliad trwy e-bost â Christopher Owen (Pennaeth yr Uned Dysgu Digidol) sydd â chyfrifoldeb strategol am ffrydiau gwaith allanol sy'n rhan o'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol ehangach, gan gynnwys: Hwb, platfform Dysgu Digidol Cymru; diogelwch ar-lein, gan gynnwys safonau hidlo'r we, a chanllawiau llywodraethu gwybodaeth. Ceisiodd y cyfweliad hwn amlygu'r ddarpariaeth ar-lein bresennol ar gyfer cymorth dysgu proffesiynol, y rhwystrau technegol a logistaidd a allai fodoli wrth ymsefydlu'r math hwn o ddysgu proffesiynol ar draws y system yng Nghymru a chyfleoedd posibl i ehangu dysgu ar-lein rywbryd yn y dyfodol.

5. Canfyddiadau

Yn aml, mae ymchwil gyhoeddedig ar ddysgu cyfunol athrawon wedi'i chyfyngu i ddefnyddio technolegau digidol yn yr ystafell ddosbarth a'r anghenion hyfforddi sy'n ofynnol i sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae astudiaethau ymchwil yn aml yn canolbwyntio ar elfennau unigol o'r broses dysgu proffesiynol, fel hyfforddi neu gymunedau dysgu proffesiynol, yn hytrach nag archwilio pa rannau eraill o'r cyfuniad dysgu a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau llwyddiant elfennau penodol. Mae llawer o'r ymchwil yn canolbwyntio ar ddefnyddio dysgu cyfunol mewn ysgolion gyda dysgwyr ifanc, ond mae sylfaen ymchwil ryngwladol gynyddol sy'n ymwneud ag effaith ymagweddau ar y cyd at addysg ac arweinyddiaeth ysgol sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu (Cordingley et al, 2015).

Mae canfyddiadau'r ymchwil yn amrywio hefyd (Thalheimer, 2017), a gallai hyn fod oherwydd yr anghytuno ynglŷn â'r diffiniad o 'ddysgu cyfunol' neu'r amrywiaeth o sefyllfaoedd dysgu a allai fod yn amlwg mewn proses 'dysgu cyfunol'. Mae nifer sylweddol o enghreifftiau o'r hyn y gellid ei alw'n 'naratifau buddugoliaeth', lle mae agweddau penodol ar ddysgu proffesiynol yn cael eu gweithredu a'u gwerthuso, heb adroddiadau ar waith dilynol nac arwydd o b'un a yw'r fenter yn debygol o fod yn gynaliadwy.

Mae enghreifftiau o elfennau dysgu cyfunol, gan ganolbwyntio ar eu manteision a'u heriau, yn cynnwys:

Defnyddio technolegau digidol a symudol

Mae nifer o fanteision yn gysylltiedig â defnyddio technolegau digidol a symudol ym maes dysgu proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gall y wybodaeth fod yn gyfredol – neu'n ddisyfyd hyd yn oed pan wneir cyhoeddiadau polisi neu pan roddir gwybod am gyhoeddi adnoddau.
- Amser – mae darnau bach o ddysgu ar gael ar gais ar adeg sy'n gyfleus i'r defnyddiwr;
- Darpariaeth hyblyg. Mae'r cysylltiad rhwng addysg a'r myfyriwr yn parhau'n ddi-dor gan nad oes angen i athrawon adael eu hystafell ddosbarth. Er bod dysgu wedi'i ganolbwyntio ar yr ystafell ddosbarth, o bosibl, nid dyna ei leoliad mwyach oherwydd bod y broses ddysgu yn digwydd yn unrhyw le sydd â mynediad at y rhyngrwyd (Rybinski a Sootla, 2017)
- Mae'r defnydd o dechnoleg symudol, fel dyfeisiau llechen, yn cynnig cyfoeth o ddulliau newydd o ddysgu yn yr awyr agored ac mewn lleoliadau heblaw am yr ystafell ddosbarth draddodiadol.
- Y gallu i oresgyn cyfyngiadau amser/lle ar addysgu / arwyddion da y gallai defnyddio dysgu cyfunol fod o gymorth mawr wrth greu ysgogiadau amgen i fyfyrwyr (Antoniadis a Konetas, 2011).
- Gall technoleg ddarparu amgylchedd dysgu preifat, diogel lle y gall gweithwyr proffesiynol arbrofi â sgiliau a gwybodaeth newydd a phennu eu cyflymder dysgu eu hunain – (Martin a Connor, 2017)
- Gallai defnyddio cyfryngau wella dulliau traddodiadol, fel defnyddio recordio i allu dadansoddi gwersi go iawn yn unigol neu ar y cyd (IRIS, 2018)

Dysgwyr a rhaglenni dysgu cyfunol

Mae Jeffrey et al (2014) yn amlygu arwyddocâd cymhelliad dysgwyr, gan adrodd hefyd fod angen i raglenni gynnwys y canlynol i fod yn llwyddiannus:

- Strwythur cynnwys eglur.
- Cyfarwyddiadau, canllawiau ac asesiadau eglur a diamwys (lle y bo'n briodol),
- Tasgau heriol, dilys,
- Adborth amserol a manwl.

Mae Selim (2007) hefyd yn mynd i'r afael â chymhelliad ac yn ychwanegu bod sgiliau rheoli amser dysgwyr a rhywfaint o brofiad a gallu wrth ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol yn ffactorau pwysig ar gyfer **llwyddiant**. Amlygwyd rheoli amser fel elfen

bwysig o gwblhau astudiaethau ar-lein yn gadarnhaol yn Moessenlechner et al (2015) hefyd.

Mae dysgwyr yn defnyddio nifer o strategaethau wrth weithio gydag adnoddau ar-lein ar raglen gyfunol – 'universalists, butterflies, changelings and minimalists' (tud. 251). Mae'r strategaethau hyn yn codi cwestiynau ynglŷn ag ymgysylltiad dysgwyr ag adnoddau ar-lein, cymhelliad dysgwyr ac effeithiolrwydd gwahanol ymagweddau. Felly, mae gwerthfawrogiad o'r strategaethau hyn yn ddefnyddiol wrth ystyried materion cymorth (Cornelius a Gordon 2009).

Mae ymagwedd dysgu cyfunol yn parchu gwahaniaethau mewn arddull dysgwyr, ac eto'n darparu'r rhyngweithio cymdeithasol angenrheidiol y mae pobl yn ei geisio ac yn ei fwynhau. Gall fod yn gost-effeithiol a'r un mor werthfawr, neu'n fwy gwerthfawr, wrth roi cyfarwyddyd i ddysgwyr. Mae'n caniatáu i ddysgwyr weithio ar eu cyflymder eu hunain ac ailadrodd pynciau / hepgor meysydd. Mae'n galluogi hygyrchedd 24/7, nid oes rhestrau aros ac nid oes bylchau rhwng yr hyn y mae dysgwyr eisiau ei ddysgu a'r dysgu sy'n digwydd. Mae hefyd yn gyson – e.e. nid oes newidynnau sy'n gysylltiedig â hyfforddwyr yn bodoli ar y we e.e. diffyg cwsg, neu argaeledd (Voci a Young, 2001).

Yn ôl Nelson (2008, tud. 11), 'non linearity, variety of content presentation and exercises, removal of barriers to engagement and letting the learner take control of their learning have all proved…to be effective ways of personalizing the learning experience'.

Personoli. Mae gan yr elfen hon berthynas bwysig â boddhad myfyrwyr, llwyddiant ac ansawdd mewn unrhyw raglen dysgu cyfunol (sic). (Cuesta Medina, 2018).

Mae Jović et al, (2017) yn amlygu'r newidynnau sy'n dylanwadu ar agwedd cyfranogwr at e-ddysgu: e.e. defnyddioldeb e-ddysgu, rhwyddineb defnydd a dyluniad. At hynny, bydd deunyddiau e-ddysgu amlgyfrwng cyfoethog yn gwneud myfyrwyr yn fwy awyddus i ddefnyddio e-ddysgu, yn ogystal ag ysgogi agweddau mwy cadarnhaol.

Hyfforddi a dysgu proffesiynol cydweithrediadol

Nodwyd gennym yn gynharach mai un o elfennau allweddol dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer athrawon yw cydweithredu (er enghraifft, Cordingley et al 2015). Sut gallai hyn gael ei wireddu mewn cyd-destun cyfunol?

Mae dyluniad a dulliau asesu rhaglen athrawon siartredig y Coleg Addysgu Siartredig yn cynnwys cydweithredu a mentora (ceir rhagor o fanylion yn https://chartered.college/chartered-teacher). Mae hyn yn cynnwys rhwydweithio a mentora wyneb yn wyneb yn ogystal â chymryd rhan mewn trafodaethau a dadleuon ar-lein.

Yng Nghymru, roedd y radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA), a drafodwn yn fanylach yn nes ymlaen, yn cynnwys elfennau o ddeialog broffesiynol, cymunedau

dysgu proffesiynol a byrddau trafod ar-lein, yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb â mentoriaid (Daly a Milton, 2017). Yn rhan o'r rhaglen Sefydlu statudol, mae Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) hefyd yn elwa o gael mentoriaid y maent yn rhannu eu proffil Sefydlu ar-lein â nhw o fewn y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP).

Y tu hwnt i fyd addysg, mae'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol yn pennu bod rhaid i 15 awr o leiaf o 30 awr orfodol o ddysgu ymarfer gynnwys gweithio gydag eraill. Yn yr un modd, mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn mynnu bod rhaid i 18 o leiaf o 36 o 'bwyntiau DPP' fod trwy DPP rhyngweithiol.

Ym maes addysg iechyd, mae De Jong (2014) wedi darganfod bod dysgu cydweithrediadol gweithredol yn bosibl o bell. Gall amrywiaeth o weithgareddau dysgu effeithlon, effeithiol ac atyniadol gael eu rheoli ar-lein mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Mae gweithgareddau wyneb yn wyneb yn galluogi dysgu nad oes modd iddo ddigwydd ar-lein (e.e. pan fydd cyfathrebu di-eiriau'n bwysig), ond mae hefyd yn sicrhau bod myfyrwyr ac athrawon yn adnabod ei gilydd, sy'n hwyluso cydweithredu ar-lein hefyd. Mae'n ychwanegu bod angen rhoi mwy o sylw i reolau rhyngweithio a chyfathrebu a rôl yr athro mewn sesiynau ar-lein.

At hynny, mae'n dweud, 'Blended learning may even make it easier to realize inter-professional collaborative learning'. (tud.287)

Mae sawl astudiaeth wedi darganfod bod cysylltedd, rhith-gymuned ddysgu, hyfforddi a chymorth gan gymheiriaid yn elfennau pwysig o lwyddiant dysgu cyfunol. Er enghraifft, canfu (Kataria, 2017) fod "lack of social interaction between teacher-student and student-student…can be overcome by designing online environments and activities that are interactive and collaborative e.g. by using technologically advanced tools like discussion forums, blogs, wikis, embedded videos/audios or closed Facebook groups." (tud.26). Mae dysgu cyfunol yn helpu dysgwyr i gael profiad dysgu o'r radd flaenaf pan nad yw addysg uwch draddodiadol yn bosibl oherwydd cyfyngiadau ariannol neu bersonol.

Er bod rhith-amgylcheddau'n gallu darparu cyfoeth o gyfleoedd dysgu, mae angen rhoi sylw i'r ffaith bod digwyddiadau ar-lein o fewn cyd-destun cyfunol yn creu profiad gwahanol iawn i'r dysgwr o gymharu ag ymagwedd wyneb yn wyneb fwy traddodiadol. Gall rhith-amgylcheddau beri i ddysgwyr deimlo'n ynysig gan nad ydynt yn dod at ei gilydd mewn un ystafell gyda hwylusydd o flaen y dosbarth (Hofmann, 2018)

Ar y llaw arall, archwiliodd astudiaeth gan Duncan-Howell (2010) tair cymuned dysgu proffesiynol yn Awstralia: un gymuned Awstraliaidd lleol o fewn talaith, un gymuned Awstraliaidd genedlaethol ac un gymuned ryngwladol. Roedd cyfranogwyr yr astudiaeth o wahanol leoliadau daearyddol gydag amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau addysgu. Er bod y pellter daearyddol rhwng gyfranogwyr yn Awstralia llawer yn fwy nag yng Nghymru, nid yw teimladau o arwahanrwydd proffesiynol yn gysylltiedig i belter o'r ysgol neu brifysgol agosaf, felly byddai ymgysylltiad gyda chymuned broffesiynol ar-lein yr un mor berthnasol ag yn Ne Cymru Newydd.

Dangosodd arolwg Duncan-Howell bod athrawon wedi bod yn chwilio am ddysgu cyfranogol a oedd yn canolbwyntio ar strategaethau ymarferol yn y dosbarth ac a oedd yn berthnasol iddyn nhw, yn arbennig pan adnabuwyd nodau DP yn newidiadau cadarnhaol i arferion addysgu a gwella dysgu myfyrwyr. Roedd athrawon

yn teimlo'n gryf bod "professional learning needs to be practical and authentic" ac dangosodd yr ymchwil bod "teachers wanted to be in control of selecting the content of their PD programmes" (tud.338). Dangosodd y canfyddiadau bod cyfranogiad athrawon yn "topical; members were motivated to participate according to the topic under discussion. This …transforms their potential for professional learning 'just-in-time'" (tud.338).

Dangosodd canfyddiadau'r astudiaeth hon fod gan aelodaeth o gymunedau dysgu ar-lein y potensial i weithredu fel ffynhonnell cyfoethog o ddysgu proffesiynol i athrawon, gyda thros 86.7% o gyfranogwyr yn ei ystyried yn fodd ystyrlon o ddatblygiad proffesiynol.

Mae llawer wedi'i hysgrifennu ynglŷn â hyfforddiant a mentora, yn enwedig yng nghyd-destun addysg, a bydd yn bwysig cynllunio ffyrdd o gynnwys y strategaethau hyn o fewn y cyfuniad dysgu. Mae Stevens a Frazer (2005), wrth ysgrifennu am ddysgu corfforaethol, yn dweud mai hyfforddi yw'r elfen goll yn aml mewn strategaeth dysgu cyfunol. "Corporate learning must blend learning with systematically integrated coaching and mentoring. This is essential because coaching bridges the gap between skill acquisition and job performance. And only through structured mentoring will a competent performer become a master performer" (tud. 9).

Enghraifft o ddysgu proffesiynol cyfunol yng Nghymru: y radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol

Gellir gweld enghraifft ddiddorol o ddysgu proffesiynol cyfunol yn agos at adref ar ffurf y rhaglen Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA) (Hadfield et al, 2017; Llywodraeth Cymru, 2015).

Cynhaliwyd y rhaglen gan gynghrair o bedair Prifysgol (Aberystwyth, Bangor, Caerdydd a'r Sefydliad Addysg yng Ngholeg Prifysgol Llundain (UCL)) ac fe'i harweiniwyd gan Brifysgol Caerdydd. Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol am bum mlynedd a dechreuodd y garfan gyntaf o athrawon y rhaglen yn yr hydref 2012. Daeth y rhaglen i ben yn 2017 oherwydd ni adnewyddwyd cymorth ariannol.

Roedd yr MYA yn enghraifft ragorol o ymagwedd gyfunol at ddysgu proffesiynol, gan ddarparu her a chymorth i Athrawon Dechreuol trwy:

- brofiad o astudio ar lefel uwch i gyflawni dyfarniad Meistr academaidd, gan gynnwys ymgysylltiad beirniadol â llenyddiaeth academaidd a phroffesiynol;
- neilltuo Mentor Allanol hyfforddedig o gronfa eang o weithwyr proffesiynol profiadol;
- cefnogaeth ffurfiol gan Fentor Ysgol a benodwyd gan uwch arweinwyr yr ysgol ac a hyfforddwyd gan y tîm MYA;
- deialog broffesiynol strwythuredig a pharhaus â mentoriaid yn yr ysgol ac yn ystod Diwrnodau Digwyddiad Dysgu wedi'u rhaglennu mewn lleoliad allanol;
- deialog broffesiynol feirniadol yn seiliedig ar arsylwi addysgu yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen;

- pwyslais ar ymarfer myfyriol wedi'i lywio gan ymchwil trwy ymholi eu haddysgu a'u dysgu proffesiynol eu hunain yn feirniadol;
- cymorth proffesiynol wyneb yn wyneb gan diwtoriaid academaidd i gwblhau modiwlau'r radd Meistr ac ymholi proffesiynol;
- ffurfio cymunedau dysgu proffesiynol a roddodd gyfleoedd i Athrawon Dechreuol gymryd rhan mewn trafodaethau beirniadol diogel;
- ar-lein – blogiau a byrddau trafod ar-lein a alluogodd athrawon i ryngweithio â'i gilydd ac â mentoriaid;
- defnyddio adnoddau penodol a deunyddiau academaidd a phroffesiynol eraill yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy Rith-amgylchedd Dysgu;
- mynediad at fwy na 4,000 o gyfnodolion electronig yn ogystal â chasgliad Adnoddau Cwricwlwm Sefydliad Addysg UCL;
- arweiniad a chymorth i gynnal Dyddiadur Dysgu Proffesiynol i gofnodi dysgu proffesiynol a galluogi myfyrio'n feirniadol arno;

Roedd y cyfuniad o brofiadau a gynigiwyd trwy'r MYA nid yn unig yn unigryw yng Nghymru ond yn darparu model ar gyfer dysgu proffesiynol cyfunol yn rhyngwladol. Ar yr adeg ysgrifennu, nid yw'n glir p'un a oes gwerthusiad llawn, ffurfiol o effaith y rhaglen dysgu cyfunol hon ar gael neu ar ddod.

Heriau sy'n gysylltiedig â chynnal ymagweddau cyfunol

Diwylliant dysgu proffesiynol

Mae diwylliant system gyfan o ddysgu proffesiynol yn allweddol i lwyddiant y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, sut bynnag y bwriedir ei ddarparu. Fel yr ydym wedi'i ganfod, mae llawer yn dibynnu ar gymhelliad y dysgwr a'i nodau hirdymor (Li et al, 2016 a Jeffrey et al, 2014).

Dangosodd yr arolwg o'r gweithlu addysg (CGA, 2017) mai'r prif faterion yn ymwneud â chymryd rhan mewn DPP oedd: gwrthdaro â gwaith/dim digon o amser (athrawon addysg bellach 70.9%, athrawon ysgol 56.5%, gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach 51.8%, gweithwyr cymorth dysgu ysgolion 35.0%), a chyfeiriodd yr ymatebwyr ym maes cyflenwi at ddiffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd (athrawon cyflenwi 35.8%, gweithwyr cymorth dysgu cyflenwi 32.9%). Mae'n ymddangos bod y canfyddiadau hyn yn gyffredin ar draws proffesiynau, a diffyg amser ar gyfer hunanastudio a enwyd fel prif rwystr rhag dysgu (CIPD 2017).

Dylai datblygiadau cenedlaethol diweddar fel y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, a lansio'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol oll chwarae rôl arwyddocaol wrth oresgyn rhwystrau a chreu'r amodau delfrydol ar gyfer newid diwylliannol. Er bod y rhain ar gam cynnar o'u datblygiad o hyd, mae'n ymddangos bod cryn obaith ar draws y system y bydd cynnydd da yn cael ei wneud. Mae lle i Addysg Gychwynnol i Athrawon baratoi athrawon i weithio mewn ysgolion sy'n dibynnu'n gynyddol ar dechnoleg. Serch hynny, nid yw cynnwys technolegau addysgol o reidrwydd yn arwain at greu amgylcheddau addysgol cyfoes (Rawlins a Kehrwald, 2014).

Efallai ei bod yn bwysicach gofyn pa mor bell y dylai'r diwylliant dysgu proffesiynol ymestyn, oherwydd bod ein dysgwyr a'n gweithwyr addysgol proffesiynol (gan gynnwys y gweithlu cyflenwi) yn gallu gweithio mewn lleoliadau eraill hefyd, er enghraifft, grwpiau gwaith ieuenctid, addysg bellach, a meithrinfeydd preifat sydd y tu allan i'r 'system hunanwella'.

Daearyddiaeth a Seilwaith

Er bod Cymru'n wlad fach, mae ganddi ardaloedd anghysbell a gwledig sydd â chysylltedd gwael ac sy'n aml yn anodd eu cyrraedd. Mae band eang a signal 4G yn fylchog mewn rhai ardaloedd hefyd. Ynghyd â'r ffaith bod yr ysgolion wedi'u gwasgaru ar draws 22 ardal awdurdod lleol, mae hyn yn cyflwyno rhai heriau allweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwella'r sefyllfa trwy fuddsoddi mewn Hwb a Dysgu yn y Gymru Ddigidol a chynhyrchu 'Addysg Canllawiau Digidol' i ysgolion. Bydd angen i unrhyw raglenni dysgu ar-lein gael eu datblygu er mwyn iddynt gael eu defnyddio ar draws nifer o lwyfannau, dyfeisiau a systemau gweithredu. Mae Hwb a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn enghreifftiau o lwyfannau cenedlaethol sydd wedi llwyddo i oresgyn rhai o'r problemau hyn.

Mae ymchwil barhaus gyfredol gan Coker a Redford (2018) yn canolbwyntio ar ba mor bwysig ydyw i ymagweddau dysgu cyfunol gyrraedd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig. Mae eu gwaith ymchwil, sy'n cael ei gynnal yng ngogledd yr Alban, yn debyg i brofiadau athrawon sy'n gweithio mewn cymunedau gwledig yng Nghymru. Maen nhw'n dadlau "rural teachers, like rural children, should not be excluded from access to quality learning environments, because of the geographically disparate context in which they work" ac yn dweud "enabling the flow of professional capital across rural areas can be challenging … as rural teachers often work in relative isolation from their professional peers." (cyflwyniad heb ei gyhoeddi, 2018). Mae eu hymchwil yn archwilio "the experiences of teachers working in the North of Scotland and highlights the factors that influence teachers' engagement with formal and informal professional learning opportunities, with a focus on the potential of technology."

Bydd rhai o'u canfyddiadau'n gyfarwydd i athrawon yng Nghymru wledig, a allai ystyried eu hunain yn 'ymarferwyr unigol' sy'n ymwneud â dysgu hunangyfeiriedig ac yn gorfod gweithio'n galetach na'u cydweithwyr trefol i gael mynediad at gyfleoedd. Ystyrir bod amser, cost a phellter yn rhwystrau rhag dysgu proffesiynol a cheir ymdeimlad o fod wedi'u datgysylltu o'r ddeialog genedlaethol, gorfod gweithio'n galetach i gael gwybod am y farn broffesiynol bresennol ac, mewn rhai achosion, colli hyder yn eu hymarfer eu hunain. Mae defnyddio technoleg yn ateb amlwg i broblemau pellenigrwydd, ond mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r ymchwil yn dangos bod seilwaith a chysylltedd yn 'fylchog', ac nad oes sicrwydd o gael mynediad at ffynonellau ar-lein. Yn ogystal â thrafferthion cysylltedd a chyflwyniad araf band eang, nodwyd bod diffyg adnoddau ffisegol fel caledwedd gyfredol yn broblem. Nid yw'n syndod bod athrawon yn teimlo bod is-set o sgiliau technegol yn eisiau o'u profiad proffesiynol, ac awgrymir bod rhywfaint o wrthwynebiad i ddysgu'r sgiliau hyn. Trafodwyd cyfryngau cymdeithasol fel modd o gyrchu'r ddeialog genedlaethol / ryngwladol ar wahân i ddysgu proffesiynol, ond ceir ymdeimlad o euogrwydd mewn rhai achosion oherwydd bod hyn yn croesi'r ffin rhwng y gwaith a'r cartref.

Mae'n amlwg o'r gwaith ymchwil hwn bod buddsoddi mewn seilwaith yn bwysig, ond mae hefyd angen ymgysylltu â rôl gyfryngol technoleg, yn enwedig yng nghyd-destun lleoliad gwledig. Mae'n rhaid i'r cyfuniad dysgu yn yr ardaloedd hyn, ac mewn amgylcheddau tebyg yng Nghymru, gynnwys technolegau newydd ochr yn ochr â chyfleoedd wyneb yn wyneb i gyfarfod a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, dod o hyd i le i drafod, lle i rannu syniadau, ffurfio cysylltiadau ehangach, a chlywed safbwyntiau gwahanol.

Iaith

A ninnau'n wlad ddwyieithog, bydd angen i'r cyfuniad ystyried y ffaith y gallai ymarferwyr fod yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Disgwylir y bydd yr holl ddysgu proffesiynol ar gael yn y ddwy iaith. Dengys data o Gofrestr CGA fod 33.3% o athrawon ysgol cofrestredig yn siaradwyr Cymraeg (GCA, 2017a). Mae'r gyfran o ANGau sy'n defnyddio'u proffil sefydlu ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyson â hyn, ar 37%.

Mae'r galw am ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd nesaf yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd hyn yn effeithio ar gostau ac amser datblygu ar gyfer holl elfennau o'r cyfuniad dysgu.

Ystyriaethau ariannol

Os yw'r ymagwedd dysgu cyfunol am gael ei chroesawu, ac er mwyn i'r elfennau sy'n canolbwyntio ar dechnoleg weithredu'n effeithiol mae angen buddsoddi'n sylweddol ynddi o ran adnoddau ac isadeiledd, wrth ei sefydlu'n gychwynnol a chydag ymrwymiad tymor hwy i sicrhau ei bod yn aros yn hyblyg ac yn gynaliadwy. Bydd dangos gwerth am arian yn hollbwysig, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol.

6. Casgliadau a goblygiadau

System

Rydym wedi amlygu nifer o fentrau dysgu proffesiynol yng Nghymru, er enghraifft yr MYA, y rhaglen sefydlu statudol i athrawon ysgol a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol, a bydd gwersi gwerthfawr i'w dysgu, yn ddieithriad, o'r profiadau system gyfan hyn.

Mae dwy astudiaeth ymchwil sy'n ymwneud ag addysg y blynyddoedd cynnar yn dangos eironi'r ffaith fod plant ifanc a'u hathrawon yn gyfarwydd â thechnolegau newydd, o bosibl, ond bod tipyn o ffordd i fynd cyn iddynt gael eu cymhwyso'n gydlynol mewn addysgeg. Mae Nuttall et al (2015) yn datgan: "…teacher uptake of digital technologies in early childhood education and their use with young children in play-based approaches to learning have not been strong." (Nuttall et al, 2015 tud. 222). Ac mae hyn yn cael ei adleisio mewn prosiect ymchwil mwy o faint gan Palaiologou (2016), sy'n datgan "although teachers are digitally competent in their personal lives, there is a dominant ideology regarding the nature of play-based pedagogy that hinders the integration of digital devices into their practice" (tud. 305).

Mae'n ymddangos bod Cymru'n gwneud cynnydd gwell ym maes Addysg y Blynyddoedd Cynnar. Mae adroddiad Estyn ar baratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (Estyn, 2018) yn datgan: "Mae ymarferwyr yn y cyfnod sylfaen yn teimlo'n ddigon cymwys o ran y rhan fwyaf o'r agweddau yn y Fframwaith i'w galluogi i gefnogi disgyblion yn briodol. Mae ymarferwyr yng nghyfnod allweddol 2 ac uwch yn llai sicr am gyflwyno holl ystod y medrau digidol" (tud. 4).

Mynegodd Pennaeth yr Uned Dysgu Digidol hyder o ran cynnydd yng Nghymru hefyd, gan ddweud: "Mae'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol yn unigryw o ran yr ehangder a gynigir. Rwy'n ymgysylltu'n rheolaidd â gwledydd eraill sy'n cynnig datrysiadau cenedlaethol, ond mae'r ystadegau ymgysylltu yng Nghymru yn well nag unrhyw raglen genedlaethol arall, at ei gilydd" (ymateb cyfweliad, mis Hydref 2018).

Mae gobaith, felly, ond mae'r angen am raglenni cyfunol o ddysgu proffesiynol, sy'n cynnwys profiadau o dechnolegau digidol sy'n gydlynol ac wedi'u cynllunio'n dda, yn parhau i fod yn flaenoriaeth frys. Mae hefyd yn hanfodol bod unrhyw raglen dysgu proffesiynol sy'n ymwneud â'r fframwaith cymhwysedd digidol yn modelu'r gorau o'r hyn a ddisgwylir gan ddysgu myfyrwyr mewn sefyllfaoedd ystafell ddosbarth.

Fodd bynnag, un o'r heriau allweddol ym mhob agwedd ar gynnal cyfleoedd dysgu proffesiynol credadwy a phriodol yw cyflymder newid sy'n fythol gynyddu. Yn ei hadolygiad o'r offeryn dysgu digidol Hwb+ ar gyfer ysgolion, adroddodd Llywodraeth Cymru na fyddai'r contract ar gyfer yr adnodd yn cael ei ymestyn ar ôl 2018 oherwydd " … mae technoleg wedi symud ymlaen ac felly hefyd anghenion ein hathrawon a dysgwyr" (Lewis, 2018). Mae darpariaeth a gynigir trwy gyfuniad dysgu proffesiynol yn caniatáu hyblygrwydd o ran dulliau ac adnoddau, a dyma fyddai'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau bod pob un o elfennau cyfuniad yn gwbl gyfredol a pherthnasol i'r anghenion hyn sy'n newid.

Dysgwr

Mae nodweddion a chymhellion dysgwyr yn ffactorau sy'n dylanwadu ar effeithiolrwydd dysgu proffesiynol. Amlygodd astudiaeth Ausburn (2004) fod ymwybyddiaeth y gallai oedolion werthfawrogi opsiynau, amrywiaeth a hunangyfeiriadedd yn eu cyfleoedd dysgu, yn gallu helpu i arwain dyluniad cyfarwyddol a fydd yn denu a chadw dysgwyr mewn oed. Roedd cyfathrebu dwyffordd effeithiol â chydfyfyrwyr a'r hyfforddwr yn bwysig i ddysgwyr mewn oed.

Canfu Li, Marsh a Rientes, (2006) bod nodau hirdymor dysgwyr (h.y. cymwysterau a pherthnasedd modiwlau i yrfaoedd proffesiynol dysgwyr) yn rhagfynegyddion pwysig o foddhad dysgwyr.

Mae effeithiolrwydd rhaglen dysgu cyfunol yn dibynnu ar barodrwydd dysgwyr i groesawu dysgu a alluogir gan dechnoleg. (Sefydliad Dysgu Oedolion Singapôr)

Dyluniad

Dangosodd ymchwil a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth Datblygu Athrawon (2015), er mwyn i ddatblygiad proffesiynol fod yn effeithiol, fod rhaid cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr gysylltu â'i gilydd a chydweithredu, ac i gymheiriaid weithio gyda'i gilydd a chynorthwyo ei gilydd.

Mewn astudiaeth a gynhaliwyd yn 2006, canfu Li, Marsh a Rientes fod dysgwyr a oedd yn fwy bodlon ag ansawdd deunyddiau addysgu, strategaethau asesu a'r llwyth gwaith gryn dipyn yn fwy bodlon â'r profiad dysgu cyffredinol. Mae corff helaeth o ymchwil wedi amlygu bod dyluniad cyfarwyddol ac ansawdd deunyddiau dysgu yn hollbwysig wrth greu profiad dysgu ar-lein effeithiol.

Dylai'r platfform dysgu fod mor syml a rhwydd ei ddefnyddio â phosibl (Luka et al, 2012). Mae defnyddioldeb unrhyw system e-ddysgu yn ffactor pwysig sy'n pennu a fydd myfyrwyr yn defnyddio e-ddysgu (Wu a Hwang, 2010).

Os nad oes gwybodaeth am ddyluniad addysgol sylfaenol y technolegau hyn, a chysondeb ag ef, gallai'r defnydd o amgylcheddau dysgu ar-lein barhau i fod yn adnodd addysgu aneffeithiol na wneir digon o ddefnydd ohono (Owens, 2012).

Un rhan yn unig o'r profiad dysgu proffesiynol ehangach yw elfen ar-lein y cyfuniad. Gan ein bod yn datblygu dull cenedlaethol, er mwyn creu synergedd, mae angen ystyried y cyfuniad yn ofalus o'r cam dylunio er mwyn i'r holl elfennau fod yn ystyrlon, yn y cyfrwng iawn, ac yn addas i'r diben. "…The relationship between the face-to-face and online activities must be carefully considered to use the strength of both modes, thereby providing a richer experience than using either of the two on their own" (Paskevicius a Bortolin, 2016).

Goblygiadau i lunwyr polisi

- Strategaeth gydlynol, gyda rolau wedi'u diffinio'n eglur, dangosyddion perfformiad allweddol, perchenogaeth a chynllun marchnata, gwerthusiad a gwelliant parhaus;
- Dylai rhaglen ddysgu genedlaethol ganiatáu am fwy o gysondeb, ni waeth am leoliad, iaith a chyfnod, a dylai gymell gwella seilwaith;
- Bydd ansawdd yr adnoddau a'r platfform yn allweddol. Mae Wu a Hwang (2010) yn datgan y dylai system e-ddysgu ddefnyddiol gael ei diffinio gan ddefnyddwyr, ac y dylai rheolwyr ei haddasu yn seiliedig ar adborth;
- Cyllid – gall y costau sefydlu fod yn uchel (Bhote, 2013), ond gall dysgu cyfunol fod yn gost-effeithiol hefyd (Scott, 2016);
- Mae addysgeg yn allweddol o hyd ni waeth beth fo'r cyfrwng. Os nad oes gwybodaeth am ddyluniad addysgol sylfaenol y technolegau hyn, a chysondeb ag ef, gallai'r defnydd o amgylcheddau dysgu ar-lein barhau i fod yn adnodd addysgu aneffeithiol na wneir digon o ddefnydd ohono (Owens, 2012) a (Cuesta Medina, 2018);
- O fewn diwylliant ehangach dysgu proffesiynol, fe allai agweddau rwystro ymagwedd gyfunol. (Davis, 2016). Mae'r ffyrdd y mae manteision proffesiynol dysgu cyfunol yn cael eu cyfathrebu a'u harddel gan y proffesiwn yn allweddol i'w llwyddiant strategol.
- Gwerthuso, data ac adrodd – Mae llawer o systemau rheoli dysgu yn cynnig metrigau y gellir eu defnyddio i fesur cyfranogiad a chyflawniad, e.e. olrhain defnyddwyr amser real, tudalennau yr ymwelwyd â nhw, dolenni a ddilynwyd, modiwlau a gwblhawyd, sgorau asesu a chanlyniadau arolwg boddhad. (Jones, 2013). Gall gwybodaeth o'r fath

fod yn ddefnyddiol o ran mireinio cynllunio / cyflwyno / cynnwys unrhyw raglan yn barhaus, gan ei wneud yn ymatebol i anghenion defnyddwyr. Byddai'r data hyn yn bwydo unrhyw werthusiad ehangach.

- Cynaliadwyedd – Bydd angen i'r holl randdeiliaid ddangos ymrwymiad hirdymor i'r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol ac ymrwymiad i ymagwedd gyfunol, a bydd angen iddynt fod yn ymatebol i newidiadau yn y macro-amgylchedd a'r micro-amgylchedd e.e. technolegol, gwleidyddol, ac economaidd.
- Dysgu o raglenni datblygiad proffesiynol blaenorol megis MYA, rhaglen ariannu DPP a weinyddwyd gan CyngACC, y Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Cynnar a'n profiadau parhaus o sefydlu statudol, y PDP a Hwb.

Nid yw'r ffaith bod dysgu proffesiynol yn 'gyfunol' yn golygu y bydd yn effeithio ar effeithiolrwydd proffesiynol o reidrwydd. Gallai cyfuniad o brofiadau dysgu a ddyluniwyd yn wael fethu ag ysgogi athrawon a gwella ansawdd addysgu. Mae'n rhaid i'r cymorth dysgu cyfunol a ddarperir gael ei seilio ar brofiadau dysgu a ddyluniwyd yn briodol, diwylliant o ddysgu proffesiynol beirniadol, ymgysylltiad cydweithrediadol yn yr ystafell ddosbarth, yr ysgol a'r rhanbarth a thu hwnt iddynt, ac ymdeimlad o gynaliadwyedd sy'n sicrhau y bydd amcanion tymor byr yn rhan o broses hwy sy'n gwerthfawrogi dysgu proffesiynol fel rhan sylfaenol o weithio'n broffesiynol.

Cyfeiriadau

Academi Addysg Uwch (dim dyddiad) Blended Learning. Ar gael yn: https://www.heacademy.ac.uk/knowledge-hub/blended-learning

Antoniadis, N. a Konetas, D. (2011). Correlation between Awareness of Blended Learning Techniques and Participation Rate in E-learning: a Case Study. *International Journal of Advanced Corporate Learning (iJAC)*, 4(3).

Ausburn, L. (2004). Course Design Elements Most Valued by Adult Learners in Blended Online Education Environments: An American Perspective. *Educational Media International*, v. 41, n. 4, tud.(au) 327–337.

Benson, V. and Anderson, D. (2010) Towards a strategic approach to the introduction of blended learning: Challenges faced and lessons learned *British Journal of Educational Technology* Vol 41.6 129-131

Bhote, K., (2013). Effectiveness of Blended Learning in Initial Teacher Education yn Lifelong Learning: A Review of a PTLLS programme. Y Sefydliad Dysgu. Ar gael yn: https://set.et-foundation.co.uk/media/897436/2013_Khorshed-Bhote-PRP-article.pdf

Coker, H. a Redford, M. (2018). Teacher Professional Development in Rural Contexts and the Potential of Technology: A Comparative Study, Cyflwyniad heb ei gyhoeddi, ECER, Bolzano, Medi 2018.

Cordingley, P., Bell, M., Evans, D., a Firth, A. (2005). The impact of collaborative CPD on classroom teaching and learning review: What do teacher impact data tell us about collaborative CPD? Llundain, y Deyrnas Unedig: EPPI-Centre.

Cordingley, P., Higgins, S., Greany, T., Buckler, N., Coles-Jordan, D., Crisp, B., Saunders, L., Coe, R. (2015). Developing Great Teaching: Lessons from the international reviews into effective professional development. Yr Ymddiriedolaeth Datblygu Athrawon.

Cornelius, S.; Gordon, C. (2009). Adult learners' use of flexible online resources in a blended programme. *Educational Media International*. v. 46, n. 3, tud. 239–253.

Crompton, H., Olszewski, B. a Bielefeldt, T. (2016). The mobile learning training needs of educators in technology-enabled environments *Professional Development in Education* Cyfrol 42, Rhif 3, 482–501.

Cuesta Medina, L. (2018). Blended learning: Deficits and prospects in higher education. *Australasian Journal of Educational Technology,* v. 34, n. 1.

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (2002) Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Hawl i Bawb: Cyngor gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn: https://www.ewc.wales/site/index.php/en/policy-hub/research-and-policy/gtcw-archive.html

Cyngor y Gweithlu Addysg (2017). Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg. Ar gael yn: https://www.ewc.wales/site/index.php/en/policy-hub/national-education-workforce-survey.html

Cyngor y Gweithlu Addysg (2018). Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg Cyngor y Gweithlu Addysg 2017-18. Ar gael yn: http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/amdanom-ni/dogfennau-corfforaethol.html

Cyngor y Gweithlu Addysg (2017a). Crynodeb Ystadegol. Ar gael yn: http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/canolbwynt-polisi/crynodebau-ystadegol-blynyddol-wedi-u-harchifo.html

Daly, C. a Milton, E. (2017). Mentoring teachers is harder than lots of people think! https://www.ewc.wales/site/index.php/en/about/staff-room/son-archive/43-english/about/staff-room/blog-archive/595-caroline-daly-emmajane-milton-mentoring-teachers-is-harder-than-lots-of-people-think.html

Davis, M., (2016). Harvard View of E-Learning. Education Week, v. 35, n. 35, tud. 27.

De Jong, N. et al (2014). Blended learning in health education: three case studies. Perspect Med Educ 3, tud.(au) 278–288.

Darling-Hammond, L. et al (2017). Effective teacher professional development, y Sefydliad Polisi Dysgu.

Desimone, L., (2009). Improving impact studies of teachers' professional development: toward better conceptualizations and measures. Educational researcher, Cyfrol 38 (3), tud.(au)181–199.

Duncan-Howell, J. (2010) Teachers making connections: Online communities as a source of professional learning *British Journal of Educational Technology* Vol 41.2 324-340.

Estyn (2018). Paratoi ar gyfer y Ffrawaith Cymhwysedd Digidol. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Preparing%20for%20the%20DCF%20cym.pdf

Fluckiger, B., Lovett, S. a Dempster, N. (2014). Judging the quality of school leadership learning programmes: an international search *Professional Development in Education* Cyfrol 40, Rhif 4, tud.(au) 561–575

Guskey, T.R., (2000). Evaluating professional development. Thousand Oaks, CA: Corwin

Hadfield, M., Connolly, M., Barnes, Y. a Snook, J. (2017). Developing the capacity to support beginning teachers in Wales: lessons learnt from the Masters in Educational Practice *Wales Journal of Education* 19.1 tud.(au) 90-106

Hattie, J. (2003) Teachers Make a Difference, What is the research evidence? Ar gael yn: https://research.acer.edu.au/cgi/viewcontent.cgi?article=1003&context=research

Hofmann, J. (2018). The Modern Blend. *TD: Talent Development*. v. 72, n. 4, tud.(au) 62–67.

IRIS (2018) Y platfform dysgu proffesiynol wedi'i seilio ar fideo https://www.irisconnect.com/uk/what-we-do/

James, M. a McCormick, R. (2009). Teachers learning how to learn. *Teaching and Teacher Education*, 25(7) tud.(au) 973–982.

Jeffrey, L., Milne, J., Suddaby, G. a Higgins, A. (2014). Blended Learning: How Teachers Balance the Blend of Online and Classroom Components. *Journal of Information Technology Education: Research*, 13, tud.(au) 121 - 140.

Jones, A. (2013). Increasing Adult Learner Motivation for Completing Self-Directed E-Learning. *Performance Improvement,* v. 52, n. 7, tud.(au) 32–42.

Jones, K. (2015) 'Datblygiad Proffesiynol' neu 'Ddysgu Proffesiynol' ... ac oes ots? Cyngor y Gweithlu Addysg. Ar gael yn: https://www.ewc.wales/site/index.php/en/about/staff-room/son-archive/43-english/about/staff-room/blog-archive/93-ken-jones-professional-development-or-professional-learning-and-does-it-matter.html Accessed 20 September 2018.

Jović, M. et al (2017). Factors Affecting Students' Attitudes towards E-Learning. *Management: Journal of Sustainable Business & Management Solutions in Emerging Economies*, v. 22, n. 2, tud.(au) 73–80.

Kataria, M., (2017). Impact of blended learning and online teaching modalities on andragogy. International Journal of Marketing and Technology v 7 Rhifyn 3 tud.(au) 18-33.

Kennedy, A. (2014). Models of Continuing Professional Development: a framework for analysis *Professional Development in Education* Cyfrol 40 Rhif 3, tud.(au) 336-351.

King, F. (2014). Evaluating the impact of teacher professional development: an evidence-based framework *Professional Development in Education* Cyfrol 40, Rhif 1, tud.(au) 89–111.

Labone, E., a Long, J. (2016). Features of effective professional learning: a case study of the implementation of a system-based professional learning model *Professional Development in Education* Cyfrol 42, Rhif 1, tud.(au) 54–77.

Lewis, B. (2018). Adnodd digidol i athrawon yn dod i ben wedi 'adborth'. Adroddiad Newyddion BBC Wales. Ar gael yn: https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/43822554

Li, N., Marsh, V., Rienties, B. (2016). Modelling and Managing Learner Satisfaction: Use of Learner Feedback to Enhance Blended and Online Learning Experience.

Decision Sciences Journal of Innovative Education, abr. v. 14, n. 2, tud.(au) 216–242.

Luka, I. *et al.* (2012). Developing Entrepreneurship Skills in a Blended Learning Course for Adult Learners. *XIII International Scientific Conference: Sustainable Business Under Changing Economic Conditions*, tud.(au) 98–112.

Llywodraeth Cymru (nd). Dysgu yn y Gymru Ddigidol – Buddsoddi mewn Band Eang. https://llyw.cymru/dysgu-yn-y-gymru-ddigidol-buddsoddi-mewn-band-eang?_ga=2.127584205.116188421.1557304865-613136503.1479996126

Llywodraeth Cymru (2015). Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA) Llawlyfr ar gyfer mentoriaid MYA 2015-16 Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017). Addysg Canllawiau Digidol i Ysgolion. https://llyw.cymru/dysgu-yn-y-gymru-ddigidol-buddsoddi-mewn-band-eang?_ga=2.127584205.116188421.1557304865-613136503.1479996126

Llywodraeth Cymru (2017a) Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl. Cynllun Gweithredu 2017-21 Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017b) Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth: pdf rhyngweithiol. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/

Margolis, J., Durbin, R. a Doring, A. (2017). The missing link in teacher professional development: student presence *Professional Development in Education* Cyfrol 43, Rhif 1, tud.(au) 23–35.

Martin, F. a Connor, M. (2017). Using Blended Learning to Aid Law and Business Students' Understanding of Taxation Law Problems. *Journal of the Australasian Tax Teachers Association*. v. 12, n. 1, tud.(au) 53–76.

Millar (2015). Perspectives on Auricchio: Rethinking Blended Learning for Leadership Development. *Developing Leaders*. 20 tud.(au) 23-29.

Moessenlechner, C. et al (2015). Learning Degree Programs – A Better Way to Balance Work and Education? *International Journal of Advanced Corporate Learning, v.8 Rhifyn 3. tud.(au)* 11-16.

Nelson, A (2008). Online personalization: The key to engaging the learner. *Development and Learning in Organizations,* 22 (1), tud.(au) 11-13.

Nuttall, J., Edwards, S., Mantilla, A., Grieshaber, S. a Wood, E. (2015). The role of motive objects in early childhood teacher development concerning children's digital play and play-based learning in early childhood curricula *Professional Development in Education* 41.2 tud.(au) 222-235.

Ofcom (2018). Connected Nations Update: Spring 2018. Available from: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/113543/Connected-Nations-update-Spring-2018.pdf

Oliver, M. a Trigwell, K. (2005). Can 'Blended Learning' Be Redeemed? *E-Learning*, 2(1), tud.(au) 17-25.

Opfer, V.D. a Pedder, D. (2011). Conceptualizing teacher professional learning. *Review of educational research*, 81 (3), tud.(au) 376–407.

Owens, T. (2012). Hitting the nail on the head: the importance of specific staff development for effective blended learning. *Innovations in Education and Teaching International*, 49(4), tud.(au) 389-400.

Palaiologou, I. (2016). Teachers' dispositions towards the role of digital devices in play-based pedagogy in early childhood education *Early Years* 36.3 tud.(au) 305-321.

Paskevicius, M. a Bortolin, K. (2015). Blending our practice: using online and face-to-face methods to sustain community among faculty in an extended length professional development program. *Innovations in Education and Teaching International*, 53(6), tud.(au) 605-615.

Pedder, D. ac Opfer, V.D. (2011). Are we realising the full potential of teachers' professional learning in schools in England? Policy issues and recommendations from a national study *Professional Development in Education* Cyfrol 37, Rhif 5, Tachwedd, tud.(au) 741–758.

Philpott, C. (2014). Theories of Professional Learning. A critical guide for teacher educators. Northwich: Critical Publishing.

Rawlins, P. a Kehrwald, B. (2013). Integrating educational technologies into teacher education: a case study. *Innovations in Education and Teaching International*, 51(2), tud.(au) 207-217.

Rybinski K., a Sootla, E. (2017). Embracing blended learning. *Global Focus: The EFMD Business Magazine*. 2017, Cyfrol 11 Rhifyn 1, tud.(au) 76-79.

Scott, R. (2016). Blended Learning for School Leaders. *Principal Leadership,* v. 16, n. 9, tud.(au) 48–51.

Sefydliad Addysg Oedolion Singapôr. (2016). Blending classroom with work and technology: how to design a blended curriculum. Ar gael yn: https://www.ial.edu.sg/content/dam/projects/tms/ial/Find-resources/Learning-resource-and-tools/blended-learning-guide/Blended%20classroom%20with%20work%20and%20technology%20(IAL)%201st%20edition%20(1.2).pdf.

Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2014). *Gwella Ysgolion yng Nghymru: Safbwynt OECD.* http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf.

Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (2017). The future of technology and learning: research report. Ar gael yn: https://www.cipd.co.uk/Images/the-future-of-technology-and-learning_2017_tcm18-29348.pdf

Selim, H. (2007). Critical success factors for e-learning acceptance: Confirmatory factor models. Computers & Education 49 tud.(au) 396–413.

Stevens, G. a Frazer (2005). G. Coaching: The missing ingredient in blended learning strategy. *Performance Improvement*, v. 44, n. 8, tud.(au) 8–13.

Thalheimer, W. (2017). Does elearning work? What the sceintific research says. Work-Learning Research. Ar gael yn: https://www.worklearning.com/catalog/

Timperley, H., Wilson, A. Barrar, H. a Fung, I. (2007). *Teacher Professional Learning and Development: Best Evidence Synthesis Iteration* Wellington, Seland Newydd: Y Weinyddiaeth Addysg. Ar gael yn: www.oecd.org/education/school/48727127.pdf Accessed 21 September 2018

Timperley, H.S. (2011). Realizing the Power of Professional Learning Maidenhead: Open University Press

Voci, E.; Young, K. (2001). Blended learning working in a leadership development programme. *Industrial & Commercial Training*, v. 33, n. 5, tud.(au) 157–160.

Whitehouse, C., (2011). Effective continuing professional development for teachers. Y Ganolfan Ymchwil a Pholisi Addysg. Ar gael yn: https://cerp.aqa.org.uk/sites/default/files/pdf_upload/CERP-RP-CW-19052011.pdf

Wu, W. a Hwang, L. (2010). The Effectiveness of E-Learning for Blended Courses in Colleges: A Multi-Level Empirical Study. *International Journal of Electronic Business Management*, v. 8, n. 4, tud.(au) 312–322.

Ymddiriedolaeth Datblygu Athrawon (2015). Developing great teaching. Lessons from the international reviews into effective professional development. Ar gael yn: http://tdtrust.org/wp-content/uploads/2015/10/DGT-Summary.pdf

Astudiaethau Achos Atodiad A

1. Cymdeithas Gyfrifiadura Prydain

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn system drefnus o gynnal, gwella ac ehangu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, yn ogystal â datblygu'r nodweddion personol sy'n angenrheidiol i unigolyn gynnal ei gymhwysedd er mwyn ymgymryd â'i ddyletswyddau drwy gydol ei fywyd gwaith.

Y math o gynllun

Mae'n orfodol i Aelodau Siartredig. Mae wedi'i seilio ar anghenion. Nid oes oriau na phwyntiau penodol – mae'r dudalen we yn dweud ei fod wedi symud ymlaen o ymagwedd wedi'i seilio ar oriau/pwyntiau i broses o ddysgu myfyriol. Mae angen i Aelodau Siartredig ailddilysu bob 5 mlynedd.

Y Cyfuniad Dysgu

Cynllun nad yw'n rhagnodol. Mae aelodau'n rhydd i ddewis gweithgareddau DPP sy'n berthnasol i'w hanghenion, ond mae angen canolbwyntio ar fyfyrio. Fe'u hanogir i wneud gwahanol fathau o weithgareddau DPP. Darperir arweiniad ar fathau o DPP, adnoddau awgrymedig a sut i gadw tystiolaeth.

Mae ITunes U yn darparu mynediad at fwy na 200,000 o ddarlithiau sain a fideo, gwersi iaith, llyfrau sain a phodlediadau – sydd oll ar gael yn rhad ac am ddim o'r iTunes Store. Gyda Chymdeithas Gyfrifiadura Prydain, mae gan aelodau fynediad at gasgliadau o ddeunydd, gan gynnwys papurau academaidd, cyfweliadau, darlithiau, dadleuon fideo, erthyglau, adroddiadau a phodlediadau sy'n ymwneud â chyfrifiadura a TG.

Cofnodi ac archwilio

Mae'r rhai sy'n gwneud cais am aelodaeth Siartredig yn destun proses ddilysu a bydd eu cais yn cael ei adolygu gan gymheiriaid. Mae'r broses yn dechrau gyda chais ar-lein, gan gynnwys datganiad personol sy'n manylu ar gymwyseddau o dan benawdau ymreolaeth, dylanwad, cymhlethdod gwaith, sgiliau busnes ac ehangder gwybodaeth – a asesir yn erbyn safon y CITP. Nid oes angen i'r rhai a chanddynt radd sy'n cynnwys achrediad CITP llawn gwblhau'r datganiad ehangder gwybodaeth. Mae angen i'r cais gael ei gefnogi gan gyflogwr, cleient neu gydweithiwr sy'n gweithio ar yr un lefel, neu'n uwch. Mae'n rhaid i ymgeiswyr roi cyflwyniad 10 munud a byddant yn cael cyfweliad asesu ar-lein a fydd yn para hyd at awr. Gellir gwirio cynnydd trwy borth ar-lein. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cadarnhau ar y gofrestr gyhoeddus. Gellir cofnodi DPP gan ddefnyddio Cynllun Datblygiad Personol Cymdeithas Gyfrifiadura Prydain.

2. Y Sefydliad Siartredig Rheoli Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

Y math o gynllun

Mae'n orfodol i'r rhai ar raddau aelodaeth penodol. 10 pwynt y flwyddyn ar lefel sy'n berthnasol i'r radd aelodaeth.

Y Cyfuniad Dysgu

Dylai 5 pwynt o leiaf gael 'eu cymeradwyo gan DPP' h.y. DPP sydd wedi cael ei gynllunio yn erbyn a'i gysylltu â safonau proffesiynol perthnasol a gydnabyddir gan y diwydiant. Gall y 5 pwynt arall fod o gategori 2 – datblygiadol. Datblygiad yw hwn nad yw'n gysylltiedig â'r safonau ond y cydnabuwyd ei fod yn cefnogi datblygiad gyrfaol parhaus. Mae tabl gweithgarwch DPP ar gael sy'n dangos y dystiolaeth sy'n ofynnol a'r pwyntiau sydd ar gael. Gall aelodau gwblhau'r holl bwyntiau DPP o gategori un os dymunant. Gall aelodau weld DPP cost isel ar y wefan. Mae mwy na 1,300 o opsiynau eDdysgu ar gael i aelodau yn rhan o'u tanysgrifiad blynyddol. Mae 350 o gyfleoedd a gydnabyddir gan CIMSPA ar gael. Polisi DPP allanol – ar sail achosion unigol, gallai gweithgareddau DPP a ddarperir gan sefydliadau nad ydynt eto'n bartneriaid CIMSPA gael eu cydnabod, ond bydd hyn yn dod o dan y categori datblygiadol. Yn y dyfodol, rhoddir blaenoriaeth gynyddol i DPP a ddarperir gan bartneriaid datblygu sgiliau swyddogol CIMSPA.

Cofnodi ac archwilio

Gall gweithgarwch DPP gael ei gofrestru. Mae aelodau'n lanlwytho tystiolaeth fel PDF neu lun o dystysgrif neu sgrinlun o gofnod cwblhau. Bydd cyflwyniadau llwyddiannus yn cael eu hychwanegu at y cofnod aelodaeth o fewn 10 niwrnod.

3. Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro a changen Cymorth Personél (Adnoddau Dynol) yr Awyrlu Brenhinol (RAF) wedi lansio menter ddysgu newydd ar gyfer personél gwasanaeth yr RAF. Mae tystysgrif lefel 5 rhaglen y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) mewn Rheoli Adnoddau Dynol ar gyfer Personél Milwrol wedi'i bwriadu i ddarparu datblygiad gyrfaol ar gyfer personél sy'n gwasanaethu ac i wella cymwysterau ôl-wasanaethu i'r rhai sy'n gadael y llu.

Y Cyfuniad Dysgu

Bydd y coleg yn darparu rhaglen y CIPD ar draws y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio ymagwedd gyfunol. Yn ogystal â'r ddarpariaeth ar-lein neu wersi wyneb yn wyneb, gall myfyrwyr drefnu tiwtorialau wedi'u teilwra gyda'u tiwtor cwrs trwy Skype, Face

Time neu dros y ffôn. Mae'r dull hyblyg yn golygu y gellir cwblhau'r cwrs ymhen cyn lleied ag wyth mis, neu gellir ei gwblhau dros ddwy flynedd.

https://www.fenews.co.uk/press-releases/20279-cardiff-and-vale-college-partners-with-raf-to-offer-top-flight-hr-training

4. **British Petroleum**

Mae British Petroleum yn defnyddio ymagwedd dysgu cyfunol yn eu cynlluniau ar gyfer graddedigion. Mae graddedigion yn dechrau gyda chynllun cynefino ac ymsefydlu yn y rôl benodol, ac ategir hyn gan ymagwedd dysgu cyfunol sy'n cyfuno dysgu ar-lein a rhith-ddysgu â hyfforddiant wyneb yn wyneb mewn ystafell ddosbarth. Mae hyn yn rhoi'r sgiliau ymddygiadol a thechnegol sy'n ofynnol ar raddedigion i'w helpu i symud ymlaen yn eu gyrfa. Yn ogystal, neilltuir cyfaill a mentor i raddedigion i'w helpu i gyfarwyddo â'r sefydliad, ac i sicrhau datblygiad parhaus.

Manylion ychwanegol:

https://www.bp.com/en/global/bp-careers/students-and-graduates/graduate-opportunities/supply-trading/europe.htm

5. **Swire**

Mae Swire yn defnyddio ymagwedd dysgu cyfunol ar gyfer eu hyfforddeion rheoli, a allai gael eu hanfon i leoliadau busnes amrywiol ar draws ardal ddaearyddol amrywiol. Yr hyn sy'n ganolog i'w rôl yw'r angen i ddeall Cod Ymddygiad y sefydliad. Ystyriwyd bod eDdysgu yn datrys y broblem o sut i ddarparu pecyn cyson o ddysgu ar draws eu swyddfeydd amrywiol ledled Asia. Mae'r modiwl moeseg fusnes yn helpu'r hyfforddeion i wybod sut i gymhwyso'r cod ymddygiad i'w gweithgareddau dydd i ddydd. Rhoddir senario / cyfyng-gyngor moesegol i ddysgwyr a gofynnir iddynt fyfyrio ar elfennau penodol. Gallant argraffu eu myfyrdodau i'w defnyddio mewn gweithdy wyneb yn wyneb. Mae'r cwrs yn gorffen gyda her wedi'i seilio ar gwis sy'n amlygu lefel eu perfformiad a'u dealltwriaeth cyn mynychu'r gweithdy. Mae'r elfen eDdysgu yn sail i raglen ehangach o hyfforddiant wyneb yn wyneb ar Foeseg Fusnes.

Manylion ychwanegol:

https://au.kineo.com/case-studies/swire-group-scenario-based-learning